sydd â hawl i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig wedi terfynu ac nad oes hawl bellach i aros wedi'i rhoi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn yr ystyr yn adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymhwysol yn terfynu'n syth cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi.".

**Diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2007**

**11.** Yn rheoliad 5 o Reoliadau 2007—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "i baragraff (2)", rhodder "i baragraffau (2), (3) a (3A)";

(ii) yn dilyn is-baragraff (b), mewnosoder—

"(bb) heb fod yn ddynodedig dan reoliad 61C;";

(b) ym mharagraff (2)—

yn lle "paragraff 6 neu 7", rhodder "paragraff 7 neu 8";

(c) yn dilyn paragraff (2), mewnosoder—

"(2A) Nid yw cwrs a ymgymerir fel rhan o Gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn gwrs dynodedig.";

(ch) yn dilyn paragraff (3), mewnosoder—

"(3A) Nid yw paragraff (1)(bb) yn gymwys pan fo rhywun sy'n gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â'r cwrs—

(a) yn fyfyriwr anabl; a

(b) yn ymgymryd â chwrs yn y Deyrnas Unedig ond nid yn ei fynychu oherwydd ni all ei fynychu am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd.".

**Diwygio rheoliad 6 o Reoliadau 2007**

**12.** Yn rheoliad 6(15)(a) o Reoliadau 2007, yn lle "lle nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi trosi neu lle na fydd yn trosi", rhodder "lle nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi trosglwyddo neu drosi neu lle na fydd yn trosglwyddo neu drosi", ac yn lle "dan reoliad 70(1),", rhodder "dan reoliad 8, rheoliad 61I, rheoliad 61J a rheoliad 70.".

**13.** Yn rheoliad 6 o Reoliadau 2007 —

(a) ym mharagraff (19) yn dilyn "cwrs gradd cywasgedig", mewnosoder "neu gwrs dysgu o bell dynodedig";

(b) ym mharagraff (20)(b) yn dilyn "phresenoldeb y myfyriwr ar y cwrs", mewnosoder "neu, yn achos cwrs dysgu o bell dynodedig, ymgymryd â'r cwrs".

**Diwygio rheoliad 12 o Reoliadau 2007**

**14.** Yn rheoliad 12, hepgorer paragraffau (4) ac (5).

**Diwygio rheoliad 16 o Reoliadau 2007**

**15.** Yn rheoliad 16 o Reoliadau 2007—

(a) yn lle paragraff (4), rhodder—

(c) benthyciad mewn perthynas â blwyddyn academaidd o gwrs dysgu o bell a wnaed yn unol â rheoliadau a wnaed dan adrannau 73(f), 73B a 74(1) o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980.

(7) Nid oes gan fyfyriwr dysgu o bell cymwys yr hawl i dderbyn cymorth dan y rheoliad hwn os yw'n ddeiliad gradd gyntaf gan sefydliad addysgol yn y Deyrnas Unedig.

(8) At ddibenion paragraff (7), nid yw gradd i'w chael ei thrin fel gradd gyntaf—

(a) pan fo'n radd (heblaw gradd anrhydedd) a roddwyd i fyfyriwr dysgu o bell cymwys sydd wedi cwblhau'r modiwlau, arholiadau neu unrhyw ddulliau eraill o asesu angenrheidiol ar gyfer ei gwrs gradd gyntaf; a

(b) pan fo'r myfyriwr dysgu o bell cymwys wedi ei gofrestru i barhau â'r cwrs yn yr un sefydliad addysgol yn dilyn derbyn ei radd er mwyn ennill gradd anrhydedd ar ôl cwblhau'r modiwlau, arholiadau neu unrhyw ddull arall o asesu angenrheidiol.

## Swm y cymorth

**61DD.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a rheoliad 61H(6), mae swm y cymorth a delir ar gyfer blwyddyn academaidd fel a ganlyn—

(a) (a) mae'r mwyafswm o'r cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1) yn daladwy os, ar ddyddiad ei gais, yw'r myfyriwr dysgu o bell cymwys neu ei bartner â hawl—

(i) o dan Rhan V11 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 i gymhorthdal incwm, budd-dal tai neu fudd-dal treth cyngor; neu

(ii) o dan Rhan 1 o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995 i lwfans ceisiwr gwaith seiliedig ar incwm neu o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogi a Hyfforddiant 1973 i lwfans o dan y trefniadau a adnabyddir fel Y Fargen Newydd;

(b) pan fo'r incwm perthnasol yn llai na £15,700, mae'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1) yn daladwy;

(c) pan fo'r incwm perthnasol yn £15,700, mae'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1)(b) yn daladwy ynghyd â £50 yn llai na'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1)(a);

(ch) pan fo'r incwm perthnasol yn uwch na £15,700, ond yn llai na £23,680, mae'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1)(b) yn daladwy a swm y cymorth taladwy o dan reoliad 61D(1)(a) yw'r swm a benderfynir arno yn unol â pharagraph (2);

(d) pan fo'r incwm perthnasol yn £23,680, mae'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1)(b) yn daladwy a swm y cymorth taladwy o dan reoliad 61D(1)(a) yw £50;

(dd) pan fo'r incwm perthnasol yn uwch na £23,680 ond yn llai na £24,280, mae'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1)(b) yn daladwy ac nid oes unrhyw gymorth yn daladwy o dan reoliad 61D(1)(a);

(e) pan fo'r incwm perthnasol yn £24,280 neu ragor ond yn llai na £26,180, nid oes unrhyw gymorth ar gael o dan reoliad 61D(1)(a) a swm y cymorth taladwy o dan reoliad 61D(1)(b) yw'r swm a adewir yn dilyn didynnu o'r uchafswm cymorth sydd ar gael o dan reoliad 61D(1)(b) £1 am bob £9.50 cyflawn a fyddai'n peri i'r incwm perthnasol fynd dros £24,280;

(f) pan fo'r incwm perthnasol yn £26,180, nid oes unrhyw gymorth yn daladwy o dan reoliad 61D(1)(a) ac mae swm y cymorth taladwy o dan reoliad 61D(1)(b) yn £50;

(c) ar ôl iddo ddechrau cwrs dysgu o bell dynodedig ar gyfer gradd gyntaf (heblaw gradd anrhydedd) bod y myfyriwr dysgu o bell cymwys, cyn cwblhau'r cwrs hwnnw, yn cael ei dderbyn ar gwrs dysgu o bell dynodedig ar gyfer gradd anrhydedd yn yr un pwnc neu bynciau yn y sefydliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), bydd myfyriwr dysgu o bell cymwys sy'n trosglwyddo o dan baragraff (1) yn parhau i gael, mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo iddo, weddill y cymorth y penderfynodd Gweinidogion Cymru bod ganddo hawl iddo mewn perthynas â'r cwrs y mae'n trosglwyddo oddi arno.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ailasesu swm y cymorth sydd yn daladwy ar ôl y trosglwyddo.

(5) Ni chaiff myfyriwr cymwys sy'n trosglwyddo o dan baragraff (1) ar ôl i Weinidogion Cymru benderfynu ar ei gymorth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo oddi arno ond cyn iddo gwblhau'r flwyddyn honno, wneud cais am grant arall o dan reoliad 61D(1)(b) neu reoliad 61F mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo iddo.

(6) Pan fo myfyriwr yn trosglwyddo o dan baragraff (1), uchafswm y cymorth o dan reoliad 61D(1)(a) mewn perthynas â'r blynyddoedd academaidd y mae'n trosglwyddo iddynt ac ohonynt yw swm y cymorth sydd ar gael mewn cysylltiad â'r cwrs sydd â'r ffioedd uchaf gwirioneddol fel y'u diffinnir yn rheoliad 61D.

**Trosi statws — myfyrwyr cymwys nad ydynt yn bresennol ar gwrs dynodedig**

**61I.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu cyn 1 Medi 2007 bod myfyriwr—

(a) yn fyfyriwr cymwys; ond

(b) oherwydd ei fod yn ymgymryd â chwrs dynodedig, ond nid yn bresennol arno, neu yn cael ei gyfrif fel petai'n bresennol—

(i) yn gymwys am lwfans myfyrwyr anabl yn unig mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw; neu

(ii) nad yw'n gymwys ar gyfer cymorth o dan Rannau 4 i 6 mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw,

rhaid i Weinidogion Cymru drosi ei statws i fod yn un myfyriwr dysgu o bell cymwys yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru drosi statws myfyriwr cymwys y mae paragraff (1) yn berthnasol iddo i fod yn un myfyriwr dysgu o bell cymwys pan —

(a) eu bod yn fodlon bod y myfyriwr yn ymgymryd â chwrs dysgu o bell dynodedig yng Nghymru; a

(b) bod y cyfnod cymhwyster heb derfynu.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu, yn unol â'r Rhan hon, beth yw swm y cymorth a delir o dan reoliad 61D ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol i fyfyriwr sydd â'i statws wedi ei drosi o dan baragraff (2).

(4) Mae'r canlynol yn gymwys i fyfyriwr sy'n dod o fewn paragraff (1)(b)(i) ac y trosir ei statws o dan baragraff (2)—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu talu swm i'r myfyriwr o dan reoliad 24 ("y swm blaenorol") ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, ni ddylid gwneud unrhyw daliad mewn perthynas â'r swm hwnnw ar nac ar ôl 1 Medi 2007;

(b) uchafswm y lwfans myfyrwyr dysgu o bell anabl y mae'r myfyriwr yn gymwys ar ei gyfer mewn cysylltiad â'i ymgymeriad â chwrs dysgu o bell dynodedig yn y flwyddyn academaidd gyfredol yw'r mwyaf o'r symiau canlynol–

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") a Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

Newidir darpariaethau cyfatebol y Rheoliadau fel a ganlyn—

### Diwygiadau i Reoliadau 2006

Yn Rhan 2 y Rheoliadau hyn, ymdrinnir â chamgymeriadau teipograffyddol yn rhaglith a rheoliad 2(1A) testun Saesneg Rheoliadau 2006 ynghyd â chamgymeriadau teipograffyddol yn rheoliadau 55 (3)(ba) a pharagraff 1 (4)(ch) o Atodlen 1 testun Cymraeg yr un Rheoliadau.

### Diwygiadau i Reoliadau 2007

Mae Rheoliadau 2007 yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2007 i wneud darpariaeth ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu o bell dynodedig . Cwrs dysgu o bell dynodedig yw cwrs a ddynodwyd dan y rheoliad 61C newydd gan Weinidogion Cymru (rheoliad 18).

Caiff y cymorth sy'n daladwy i fyfyrwyr dysgu o bell cymwys ei nodi yn y rheoliadau 61D (grant mewn perthynas â ffioedd a grant mewn perthynas â llyfrau, teithio a gwariant arall) a 61F newydd (lwfans myfyrwyr dysgu o bell anabl). Caiff lwfans myfyrwyr dysgu o bell anabl ei dalu i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu o bell llawnamser o dan y rheoliad 61F newydd yn hytrach na o dan reoliad 24 o Reoliadau 2007.

Caiff statws myfyrwyr sydd eisoes yn derbyn grant costau byw myfyrwyr anabl yn gysylltiedig ag ymgymryd â chwrs dynodedig ond nid yn ei fynychu ei newid o fod yn fyfyrwyr cymwys i fod yn fyfyrwyr dysgu o bell cymwys yn unol â'r rheoliad 61I newydd. Bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys i fyfyrwyr a ddyfarnwyd eisoes eu bod yn gymwys ond nas cymhwyswyd ar gyfer cymorth yn unig am nad oeddynt yn mynychu cwrs dynodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud amryw o ddiwygiadau canlyniadol ychwanegol i Reoliadau 2007 yn dilyn cyflwyno darpariaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr dysgu o bell cymwys.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio rheoliad 16 o Reoliadau 2007 i'w gwneud yn glir na all myfyriwr dan yr hen drefn sy'n mynychu cwrs yn Ysgol Cerdd a Drama Guildhall neu Goleg Heythrop fod yn gymwys ar gyfer grant tuag at ffioedd sydd yn fwy na'r ffioedd gwirioneddol sy'n daladwy ganddo (rheoliad 15).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio rheoliad 30 o Reoliadau 2007 i egluro y caiff myfyriwr cymwys fod yn gymwys i gael grant ar gyfer dibynyddion pan fo'r dibynnydd perthnasol yn ddibynnol arno ef neu ef a'i bartner gyda'i gilydd (rheoliad 17).

Gwneir darpariaeth hefyd i alluogi rhai myfyrwyr rhan-amser i fod yn gymwys i dderbyn lwfans myfyrwyr rhan-amser anabl yn ystod blwyddyn academaidd (rheoliad 21).